ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL, 31AIN MAI 2002

Presennol: Howell Beaton, CBSCNPT
Geoff White, CBSCNPT
Alban Forster, SLR Consulting Cyf
Andrew Street, SLR Consulting Cyf
Niall Reynolds, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Clifford Parish, Dinas a Sir Abertawe
Ruth Henderson, Dinas a Sir Abertawe
Dave Harries, Cyngor Sir Benfro
Graham Dorrington, Cyngor Sir Ceredigion
Nick Oakes, Cyngor Sir Ceredigion
Karen McNeil, Cyngor Sir Caerfyrddin pp Gareth Jones
Peter Kendell, Cyngor Sir Caerfyrddin
Neil Bateman, Cyngor Sir Caerfyrddin
Huw Jenkins, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Sue Martin, Llywodraeth Cynulliad Cymru

1. **Ymddiheuriadau**

WRAP
Dick Crawshaw, Fforwm Economaidd Gorllewin Cymru
John Sheppard, Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru
Andy Rees, Uned Polisi Gwastraff y Cynulliad Cenedlaethol
Bryn Graham, Dinas a Sir Abertawe
B. Jones, Cyngor Sir Caerfyrddin
Eifion Bowen, Cyngor Sir Caerfyrddin
Huw Roberts, Cyngor Sir Benfro
Carol Williams, Cyngor Sir Benfro/Parc Cenedlaethol Sir Benfro
Steve Bool, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

2. **Cofnodion cyfarfod 9fed Mai 2002**

Cytunwyd, yn dibynnu ar ychwanegiadau a ddosbarthwyd gan Neil Bateman, ond yn amodol ar beidio â chynnwys unrhyw ddyddiad ynghylch y cytundeb gyda SLR.

3. **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Rheoli 23ain Mai**

Nodwyd.

4. **Asesiad Gwastraff Rhanbarthol**

Rhoddodd Andy Street gyflwyniad i 'bedigri' SLR ac wedyn rhoddodd Alban Forster gyflwyniad ar yr ymagwedd a gynigir ganddynt. Amgaeir copi o'r cyflwyniad gyda'r cofnodion hyn ac felly, nid oes angen manylu arnynt.

Cofnodwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd.

- Mae ymgynghori yn rhan allweddol o'r broses. Yn RTAB y Gogledd-orllewin nid oedd unrhyw ymgynghori tan ddiwedd y broses, a beirniadwyd yr astudiaeth am hyn. Roedd ymgynghori ar dair lefel bosibl:- technegol, Aelodau, cynulleidfa ehangach (gan gynnwys y cyhoedd). Cytunwyd y cynhyrchir dogfen drafod ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp Technegol. (Gweithredu AF/GW i gynhyrchu'r papur).

- Roedd cyhoeddusrwydd yn rhan hanfodol o'r broses, wrth gyfeirio'n arbennig at y camau a rhan y cyhoedd ynddynt, a chytunwyd y bydd angen llunio datganiad drafft i'r wasg i gael ei ystyried gan Fforwm yr Aelodau ar 4ydd Gorffennaf. (Gweithredu GW i ddosbarthu'r datganiad drafft i'r wasg).

- Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg data sy'n gallu tanseilio hygrededd y Strategaeth. Cytunwyd bod hwn yn fater i'w drafod unwaith roedd asesiad cyntaf o'r wybodaeth wedi'i baratoi.

- Er y gall ymagwedd SLR fod yn wahanol i ymagwedd NCT 21, roedd cytundeb ynghylch ymagwedd SLR.

- Roedd gwersi i'w dysgu o RTAB y Gogledd-orllewin ac astudiaethau eraill a wnaed yn yr E. Midlands a Lincs., a byddai SLR yn eu defnyddio.

- Esboniodd AF fethodoleg y 6 dangosydd amcan, gyda'r gweddill yn dibynnu ar farn broffesiynol. Mae'r model yn ddigon cryf i ddatblygu nifer o opsiynau, a fydd yn angenrheidiol ar gyfer BPEO.

- Cytunwyd y byddai'n llesol i wahodd rhywun o RTAB y Gogledd-orllewin i'r cyfarfod nesaf (Gweithredu GW).

- Cytunwyd y byddai AF yn defnyddio rhifau cyfain ar gyfer yr ymarfer pwysiadau.

5. **Cyfarfodydd yn y Dyfodol**

Cytunwyd y byddai cyfarfodydd y Grŵp Technegol yn cyfeirio at y 'cerrig milltir' yn y broses a amlinellwyd gan AF (gwelwch y cyflwyniad).

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3ydd Medi 2002, 10.00. Cytunwyd ar gyfarfod 'seminar' arall, o bosibl gyda'r Grŵp Technegol yn gyntaf, i gael ei gynnal yn wythnos y 14eg Hydref, a chytunwyd y byddai cyfarfod arall yn angenrheidiol i 'gwblhau' adroddiad cam 1 cyn y cyfarfod hwnnw.

6. **Cytundeb Drafft**

Diben hwn oedd cytuno ar nodau'r Grŵp Technegol.

Cytunwyd i e-bostio sylwadau ar y ddogfen hon at GW er mwyn eu trafod y tro nesaf.

7. **Fforwm yr Aelodau Arfaethedig**

Cytunwyd ar yr agenda ddrafft
a) Cyfansoddiad y Fforwm.
b) Cyflwyniad ar y broses, ac amserlen ar gyfer ymrwymiad yr Aelodau.
c) Datganiad i'r wasg.

8. **Unrhyw Fusnes Arall**

a) **Grŵp Gogledd Cymru**

Cadarnhaodd Sue Martin mai Sir Dinbych oedd y prif awdurdod, a threfnwyd cyfarfod ar gyfer y 3 grŵp, gyda'r Cynulliad/Asiantaeth yr Amgylchedd a Grwpiau y mae ganddynt ddiddordeb yn y maes ar gyfer 27ain Mehefin.

b) **Ymrwymiad y Diwydiant Gwastraff**

Nodwyd nad oedd un cynrychiolwr o'r diwydiant yn bresennol. Cytunwyd y byddai Sue Martin a Cliff Parish yn anfon manylion cyswllt allan, a byddai GW yn ysgrifennu at bawb i geisio ennyn eu diddordeb.

Misc/june05jw